

Mantell

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 73 • Gorffennaf 2016

Cynnwys

O Mantell	2
Newyddion	3
Canolfan Gwirfoddoli	4
Plant a Phobl Ifanc	5
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles	6
Ffrindia'	7
Canfod Gwerth Buddiant Cymdeithasol	8
Cyfleoedd Ariannu	9
Digwyddiadau ac Hyfforddiant	10



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

MANTELL GWYNEDD

Swyddfa Gofrestredig:
23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon,
Gwynedd, LL55 1AB.
Ffôn: 01286 672626
Ffacs: 01286 678430

E-bost:
ymholiadau@mantellgwynedd.com

Swyddfa Gofrestredig:
Yr Hen Orsaf Heddlu, Y Lawnt,
Dolgellau, Gwynedd, LL40 1SB.
Ffôn: 01341 422575
Ffacs: 01341 422147

Gwefan: www.mantellgwynedd.com



Facebook: [mantellg](https://www.facebook.com/mantellg)



Trydar: [@mantellgwynedd](https://twitter.com/mantellgwynedd)

Wythnos Gwirfoddolwyr 1af - 12fed Mehefin, 2016

Prif nod yr wythnos yw Cydnabod, Recriwtio a Gwobrwyo gwirfoddolwyr. Yn ystod yr wythnos, cynhaliwyd diwrnodau agored recriwtio yng Nghaernarfon a Dolgellau. Roedd hyn yn gyfle i fudiadau ymuno â'r Ganolfan yn ein swyddfeydd i hyrwyddo eu gwasanaethau a hysbysebu eu cyfleoedd gwirfoddoli. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiynau estyn allan mewn cydweithrediad â'r Canolfannau Byd Gwaith a chafwyd cyfweiliad ar un o raglenni BBC Radio Cymru yn trafod pwysigrwydd gwirfoddoli. Penllanw'r trefniadau oedd y Digwyddiad Dathlu a Diolch gynhaliwyd ym Mhortmeirion ar y 28ain o Fehefin. Bu'n ddigwyddiad arbennig yng nghwmni'r gŵr gwadd, y Cyngorydd Eric Jones, Cadeirydd Cyngor Gwynedd.

Cawsom araith bwerus iawn gan Eric wrth iddo drafod a phwysleisio pwysigrwydd y sector wirfoddol. Siaradodd am y profiad maent wedi ei wynebu fel teulu yn ddiweddar a'r gwahaniaeth mawr mae gwirfoddoli wedi ei gyflawni i achub bywyd ei fab.

Roedd tri enwebiad o Wynedd yng ngwobrau Gwirfoddolwyr y Flwyddyn 2016. Roedd y tri yn bresennol i dderbyn eu tystysgrifau rhagoriaeth. Roedd dau yng nghategori Oedolyn sef Heidi Bakewell (North Wales Netball) a Roger Richards (Radio Ysbyty Gwynedd) a Tansy Swerdlow (Wild Elements) yn y categori Pobl Ifanc.



Ian Pritchard, Cymdeithas y Deillion, yn derbyn ei dystysgrif



Y gwirfoddolwyr gyda'u tystysgrifau

STAFF

MANTELL GWYNEDD

Prif Swyddog:

Bethan Russell Williams

TÎM DATBLYGU A GWASANAETHAU

Uwch Swyddog Datblygu a Gwasanaethau:

Delyth Vaughan

Swyddog Datblygu Prosiectau:

Eleri Lloyd

TÎM IECHYD

Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

Sioned Llwyd Larsen

Rheolydd Prosiect Ffrindïa':

Carys Williams

Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Arfon:

Alan Thomas

Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Dwyfor:

Dawn Thomas

Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Meirionnydd

Mirain Fflur Roberts

TÎM CYLLID A GWEINYDDOL

Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth

Tîm Cyllid a Gweinyddu:

Ceren Williams

Swyddog Gweinyddol:

Bronwen Rowlands

Cynorthwy-ydd Cyllid:

Tracy Williams

Cynorthwy-ydd Gweinyddol:

Tracy Lynne Rotheram

Cynorthwy-ydd Gweinyddol:

Ellen ap Dafydd

TÎM CANOLFAN GWIRFODDOLI

Cydlynnydd Canolfan Gwirfoddoli:

Carwyn Humphreys

Swyddog Gwirfoddoli:

Gwenllian Glyn Dafydd

DEUNYDD I'R RHIFYN NESAF O MANTELL

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw

8 Medi 2016

Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at **Ellen ap Dafydd**, Swyddfa Mantell Dolgellau e-bost:

ellenapdafydd@mantellgwynedd.com

Ffôn: **01341 422 575**

Nodyn gan y Prif Swyddog

Mae'n fore dydd Mercher glawog a gaeafol ym mis Mehefin. Mae'r wlad mewn argyfwng difrifol am sawl rheswm. 'Rwyf newydd ddarllen stori dorcalonnus am achos o hiliaeth yn erbyn Pwyliaid. Mae unigolion a grwpiau yn bryderus am eu dyfodol oherwydd newidiadau a'r hyn all ddigwydd i statws Cymru yn Ewrop. Byddai yn hawdd colli calon a rhoi ffidil yn y to. Ond NA! Mae fy meddwl yn mynd yn ôl i ddigwyddiad arbennig ym Mhortmeirion ddoe, Te Dathlu a Diolch i Wirfoddolwyr. Derbyniodd nifer fawr o unigolion, yn bobl ifanc a rhai hŷn, gymeradwyaeth am eu gwaith clodwiw. 'Rwyf innau yn gwybod bod y rhai gafodd eu cymeradwyo ym Mhortmeirion ddoe yn cynrychioli miloedd o rai eraill 'run fath a nhw sydd yn gwirfoddoli er lles eraill, a hynny heb ddisgwyl dim yn ôl. Dyma sydd yn adennill ein gobaith am ddyfodol gwell. Hyn sydd yn rhaid ei gofio ar fore sy'n ddigon tywyll fel arall os ydan ni yn edrych ar y byd cyfan.

Ac oedd, mi oedd ddoe yn ddiwrnod arbennig. Y dathliad blynyddol fyddwn yn ei gynnal i gydnabod gwirfoddolwyr a'r gwahaniaeth maent yn ei wneud i fywydau eraill ac i gymunedau yng Ngwynedd a thu hwnt. Ond mae'n rhaid i mi dynnu sylw at un rhan arbennig iawn o'r diwrnod, rhywbeth wnaeth fy nghyffwrdd i'r byw. O edrych ar y gynulleidfa yn Neuadd Ercwlff mae yn amlwg fod eraill hefyd yn teimlo 'run fath. Wrth glywed y Cyng. Eric Jones, Cadeirydd Cyngor Gwynedd, ddaeth dagrau i lygaid llawer ym Mhortmeirion ddoe. Adrodd gwnaeth am hanes ei fab 46 oed, Gareth Fon Jones, Prifathro Ysgol Dolbadarn Llanberis, gafodd ddiagnosis llynedd o ganr y gwaed a mêr yr esgyrn. Heb driniaeth cafodd wybod byddai ganddo 18 mis i fyw. Trwy elusen Anthony Nolan canfuwyd unigolyn o Dusseldorf yn yr Almaen oedd yn "match" perffaith iddo ac felly yn cynnig gobaith a bywyd i Gareth ac i'w deulu a'i ffrindïau. A geiriau Eric Jones oedd yn crynhoi'r cwbl i mi. Meddai Eric "**dim otch be ydi lliw croen neb, o ba wlad, na lle yn y byd mae nhw yn dŵad, dim otch be ydi'r crefydd mae nhw yn credu ynddo nag i le mae nhw yn mynd i addoli, tydi hynny ddim yn bwysig. Car dy gymydog fel ti dy hun, dyna sydd isho i chi gyd gofio**". Geiriau doeth gan dad oedd wedi gofod wynebu colli plentyn.

Elusen ydi Ymddiriedolaeth Anthony Nolan, sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr. Waeth faint o glyfar ydi technoleg heddiw mae dal angen "pobol go iawn" arnom i fedru gwneud y gwahaniaeth, yn yr achos yma, yr hogyn ifanc o Dusseldorf yn yr Almaen aeth ati yn wirfoddol i gyfrannu mêr ei esgyrn. Ond mae gwaddol ychwanegol wedi dod o hyn oll - plant bach Ysgol Dolbadarn wedi codi dros £3000 at achos da, a merch Gareth sydd ar hyn o bryd yn cerdded Kilimanjaro i godi arian at elusen Anthony Nolan. Mae be ddigwyddodd i'r Prifathro a'r Tad wedi codi ymwybyddiaeth ymysg cenhedlaeth newydd am werth a phwysigrwydd gwirfoddoli a chefnogi elusennau.

Cofiwch am stori Gareth ac am eiriau Eric Jones dros y dyddiau, yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Ac ia, car dy gymydog fel ti dy hun, geiriau gŵr doeth mewn cyfnod o helbul aruthrol.

Tan tro nesa', Bethan



CRONFA BUDDSODDI CYMUNEDOL CCG (2011-2016)

Gweinyddwyd y Gronfa yma gan Mantell Gwynedd ar ran Cartrefi Cymunedol Gwynedd o 2012-2016 i gefnogi prosiectau a mentrau cymunedol yng Ngwynedd.

Nid yw'r Gronfa yma (ceisiadau rhwng £1000 a £10,000) bellach ar gael ond mae'n braf iawn gallu adrodd ar ei llwyddiant ers 2011. Buddsoddwyd dros £1 miliwn mewn prosiectau cyfalaf a/neu refferiw cyffrous ac arloesol ar draws cymunedau yng Ngwynedd. Llwyddwyd i ddenu dros £5 miliwn yn ychwanegol o gronfeydd eraill i gefnogi y prosiectau yma sydd yn dangos gwerth economaidd sylweddol cronfa o'r fath ac sydd wedi bod yn allweddol i gefnogi ein cymunedau.

Dyma rai o brosiectau a dderbyniodd arian o'r Gronfa Buddsoddi Cymunedol.



FFARWELIO GYDAG AELOD O STAFFY GANOLFAN WIRFODDOLI

Fe ffarwelwyd ag Ann Fleming aelod o staff Y Ganolfan Wirfoddoli yn ddiweddar ar ôl tair blynedd ar ddeg o wasanaeth yng Nghanolfan Gwirfoddoli ym Meirionnydd. Carwn ddiolch yn fawr iddi am ei gwaith dros yr holl flynyddoedd gan ddymuno'n dda iddi i'r dyfodol.

UNED COFNODION TROSEDDOL CGGC

Yn sgil sylwadau a lobio gan y sector, bu i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodri ar y pryd gynto i ymestyn y cyllid i ddarparu gwasanaethau Uned Cofnodion Troseiddol CGGC tan 30 Medi 2016.

Mae'r Uned felly yn parhau i dderbyn ceisiadau am wiriadau a delio gyda'ch ymholiadau ynglŷn â gwneud cais. Cysylltwch â'r Uned ynglŷn â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn y ffyrdd arferol – 0800 0197 391.

Ceisiadau Papur Dyddiad olaf i brosesu: Wythnos yn Cychwyn 18 Gorffennaf 2016. Dim cais yn cael ei dderbyn wedi 4.00pm Dydd Gwener 22 Gorffennaf

Ceisiadau Ar-lein Dyddiad olaf i brosesu: Wythnos yn cychwyn 26 Gorffennaf 2016. Dim cais yn cael ei dderbyn wedi 4.00pm dydd Gwener 22 Gorffennaf

GWOBRAU GWIRFODDOLWYR Y FLWYDDYN CYMRU 2016

Derbyniwyd nifer o enwebiadau drwy Gymru gyfan eleni ar gyfer y wobr yma. Dyma rai dderbyniodd eu tystysgrifau Canmoliaeth Uchel yn ystod digwyddiad Dathlu a Diolch eleni ym Mhortmeirion:

Roger Richards – Canmoliaeth Uchel: Categori Oedolyn (Radio Ysbyty Gwynedd)

Heidi Bakewell – Canmoliaeth Uchel: Categori Oedolyn (North Wales Netball)

Tansy Swerdlow – Canmoliaeth Uchel: Categori Pobl Ifanc (Elfennau Gwylt)

Yn ogystal, cyflwynwyd tystysgrifau cydnabyddiaeth i gydnabod cyfraniad arbennig gwirfoddolwyr. Dyma rai dderbyniodd dystysgrifau yn ystod digwyddiad Dathlu a Diolch ym Mhortmeirion :

Christopher Amihere – GISDA

Clare Mack – Victim Support

Des Mullander – Eglwys Noddfa Caernarfon

Mr Gerald Williams – Yr Ysgwrn

Kevin Roberts - Eglwys Noddfa Caernarfon

Gwirfoddolwyr Deudraeth Cyf

Rhian Lloyd Ellis – 500 awr o wirfoddoli

Bethan Lewis - 100 awr o wirfoddoli

Cyng Eric Jones a Gwen Griffith

CANMOLIAETH UCHEL



Roger Richards



Heidi Bakewell



Tansy Swerdlow

CYFRANIAD ARBENNIG



Christopher Amihere



Clare Mack



Des Mullander



Mr Gerald Williams



Kevin Roberts



Bethan Lewis



Gwirfoddolwyr Deudraeth Cyf



Rhian Lloyd Ellis



Cyng Eric Jones a Gwen Griffith

GWIRFODDOLWYR Y MILENIWM



Gwirfoddolwr y Mileniwm - Llwyddiannau

Tystysgrif am 50 awr o wirfoddoli

Lisa Parry - Gisda
 Yasmin Hughes - Gisda
 Rachel Jones - Rock Solid Bala
 Mari Roberts - Ysgol Morfa Nefyn
 Jasmin Webster - Seren
 Charlie Owen - Canolfan Hamdden Bermo
 James Rose - Rheilffordd Ucheldir Cymru
 Amy Evans - Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar

Tystysgrif 100 awr o wirfoddoli

Jordan Jones – Coleg Glynllifon
 Steven Roberts - Coleg Glynllifon
 Owain Rhys - Royal Voluntary Service
 Nathan Edwards - Gisda
 Alex Alexander - Gisda

Tystysgrif 200 awr, gwobr rhagoriaeth

Luis Roberts - Gisda
 Aron Roberts - Oxfam Porthmadog a Choleg Dolgellau

Da iawn pawb.

GWIRFODDOLWRAIG Y MIS



Nicola Pengelly yn derbyn ei thystysgrif am wirfoddoli 200 awr hefo Banc Bwyd Caernarfon a Scouts. Mae Nicola bellach yn gwirfoddoli yng nghaffi Te a Cofi Gisda, ac wrth ei bodd yno. Da iawn ti Nicola.



Grant Dan Arweiniad Pobl Ifanc 2016 - 2017

Grant i'w rannu i grwpiau ar gyfer creu rhagor o gyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc.

A ydych chi yn:-



- chwilio am arian i ddatblygu syniad gwirfoddoli i bobl ifanc?
- gwybod am grŵp o bobl ifanc a fyddai'n gallu gwirfoddoli, ond fod arnynt angen grant i gychwyn?
- gweithio gyda phobl ifanc, ac yn chwilio am arian i'w hysgogi i wirfoddoli?

Nod cynllun 'Grantiau Dan Arweiniad Pobl Ifanc' - GwirVol yw cefnogi gweithgareddau a phrosiectau gwirfoddoli bach, a gynhelir ac a arweinir gan bobl ifanc.

Bydd hyd yn oed y ceisiadau llwyddiannus yn cael eu dewis a'u hargymell gan banel o bobl ifanc 14-25 oed.

Gellir ymgeisio am grant hyd at uchafswm o £500 i gefnogi gwirfoddoli neu sefydlu gweithgaredd gwirfoddol ar gyfer pobl ifanc.

Dyddiadau cau yn ystod 2016-17 (yn ddibynnol ar gyllid)

30 o Fedi 2016

25 o Dachwedd 2016

27 o Ionawr 2017

Mwy o wybodaeth gan:

Gwenllian@mantellgwynedd.com / 01286 672626

Y newyddion diweddaraf i'w gael ar ein gwefan!
www.mantellgwynedd.com

Digwyddiad Iechyd Da - Hydref 14eg 2016



Cynhelir digwyddiad Iechyd Da eleni yn y Ganolfan Hamdden yn Nolgellau ar Ddydd Gwener 14eg o Hydref.

Os hoffech gael gofod yn y digwyddiad yma a fuasech chi gystal â chysylltu gyda ni yma ym Mantell Gwynedd unai ar **01286 672626 / 01341 422575** neu sioned@mantellgwynedd.com

Ydych chi'n gofalu am aelod o'r teulu neu ffrind?

Er mwyn cydnabod y wybodaeth a'r profiad y gall gofalywyr di-dâl eu cynnig o ran helpu i wella a llywio'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn chwilio am ofalwyr i fod yn gysylltiedig â Grŵp Cyfeirio Gofalwyr Gogledd Cymru. Nod y grŵp fydd cynnig cyngor ac adborth i'r Bwrdd Iechyd o ran effaith gwasanaethau ar ofalwyr a helpu i feithrin diwylliant o gynnwys gofalywyr ar bob lefel yn y Bwrdd Iechyd.

Bydd y grŵp yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn mewn lleoliadau ar draws Gogledd Cymru. Bydd y Bwrdd Iechyd yn ad-dalu costau teithio, seibiant, gofal plant neu gostau rhesymol eraill y bydd Gofalwyr yn mynd iddynt trwy fynychu'r cyfarfodydd.

Os hoffech ddysgu mwy am y cyfle cyffrous hwn, neu i ofyn am ffurflen gais i fod yn rhan o'r grŵp cyfeirio, ffoniwch: Tim Mesur y Gofalwyr (01745) 448740 Est. 2492 neu anfonwch e-bost at: BCU.Carers@wales.nhs.uk

Shelter Cymru - Prosiect "Cymryd Sylw"

Bydd y prosiect yn defnyddio profiadau pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau digartrefedd a thai yng Nghymru i ddylanwadu'n uniongyrchol ar bolisiau darparwyr gwasanaeth ayb.

Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw grŵp neu wasanaeth cymunedol sydd wedi profi digartrefedd neu a ydych chi wedi profi digartrefedd neu argyfwng tai eich hun?

Hoffai'r prosiect yma glywed gennych chi! Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Manu ar manuelab@sheltercymru.org.uk - **01978 317917** neu **07866536973**.

CANIAD

Nod y prosiect hwn yw gwella cydraddoldeb mewn gwasanaethau i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl ynghyd â'u gofalywyr ar draws Gogledd Cymru. Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth rhwng CAIS a Hafal er mwyn sicrhau bod lleisiau defnyddwyr gwasanaeth a gofalywyr yn cael eu clywed. Am fwy o wybodaeth ewch ar eu gwefan www.caniad.org.uk

Agoriad Cyf - Prosiect i Gyflogaeth drwy Gefnogaeth

Gall y prosiect gynnig cyfleoedd am waith cyflogedig i bobl 25+ sydd â chyflwr iechyd sy'n eu rhwystro rhag gallu gweithio. Gall Agoriad ddod o hyd i leoliad addas a thalu cyflog "byw" a chostau teithio ynghyd â chynnig cefnogaeth i lwyddo yn y swydd. Am fwy o wybodaeth ffoniwch **01248 361392**.

Hyfforddiant CAIS

Codi ymwybyddiaeth o Gyffuriau ac Alcohol - Awst 23 a 24 - Caernarfon Gwynedd 9.30 y bore - 4.30 y pwnn

Nod y Cwrs: Codi ymwybyddiaeth o'r egwyddorion sylfaenol parthed adnabod a rheoli camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Cwrs defnyddiol ar gyfer gweithwyr lle gwelir effaith camddefnyddio sylweddau e.e. athrawon, heddlu, gweithwyr ym maes tai, grwpiau cefnogi, swyddogion gweinyddol ayb. Ni chodir tâl am fynychu'r cwrs. Am fwy o wybodaeth ac i archebu lle:

Ffôn: **01492 523827**

Ffacs: **01492 523829**

e-bost: bookings@cais.org.uk



LANSIO STRAEON DIGIDOL

Ddydd Gwener 11eg o Fawrth 2016 yng Nghastell Deudraeth, Minffordd fe lansiwyd Straeon Digidol Ffrindia'.

Mae'r chwe ffilm yn dangos, yng ngeiriau'r unigolion a gwirfoddolwyr gwir werth cynllun cyfeillio i bobl sydd yn unig neu ynysig. Yn dilyn dangos y ffilmiau diolchwyd i bawb am eu cyfraniad i greu adnodd mor bwerus, diolchwyd hefyd i CREAD Cyf am y gwaith cynhyrchu. Cafodd y lansiad ei ffilmio gan gwmni Tinopolis ar gyfer ei rhaglenni ar S4C a chynhaliwyd cyfweiliadau gyda rhai o'r gwirfoddolwyr ac unigolion ar gyfer yr eitem. Os ydych yn dymuno gwyllo'r ffilmiau gallwch wneud hynny drwy un ai fynd ar 'You Tube' a rhoi'r isod yn y blwch 'chwilio':

- Ffrindia' Aberdyfi a Dolgellau
- Ffrindia' Blaenau Ffestiniog
- Ffrindia' Caernarfon
- Ffrindia' Pen Llŷn
- Ffrindia' Rhostryfan a Thalysarn

Gallwch hefyd eu gweld ar wefan Mantell Gwynedd
www.mantellgwynedd.com



*Mrs Margaret Rees
Owen Cricieth
gyda'i gwirfoddolwr
Gwen Owen*

*Mrs Gwyneth
Macateer yn cael ei
chyfweled gan Elin Fflur
(lluniau Richard Jones)*



DWY AR EU HENNILL ERS CYFEILLIO DRWY FFRINDIA'

Mae Nora Jones yn wirfoddolwr brwd yn ei hardal. Mae'n gwirfoddoli i Ganolfan Talysarn, Datod Tafod gyda dysgwyr a'i phapur bro lleol.

Yn dilyn cyfarfod Dawn Thomas, Cydlynnydd Ffrindia' ardal Dwyfor penderfynodd y bydda hithau yn cynnig ei hun fel gwirfoddolwr. Yn ôl Nora mae'r cynllun syml yma yn gwneud gwahaniaeth mawr iddi hi fel gwirfoddolwr ac i'r person sy'n derbyn y gwasanaeth.

Cyfaill Nora yw Mary Owen sydd yn byw yn Rhostryfan ac yn ôl Nora, "bydd Mary yno yn disgwyl amdanaf gyda gwên ar ei hwyneb bob amser ac mae'n bleser mynd i'w gweld yn wythnosol".

Meddai Mary "ar ôl cwrdd â Nora dwi'n teimlo'n well gan fod ni'n dwy yn dod ymlaen gyda'n gilydd mor dda. Yn rhoi'r byd yn ei le dros banad gan ein bod hefyd yn ymddiddori yn yr un pethau'.





Mae Mantell Gwynedd yn falch o lansio Social Value Cymru.

Efallai i chi weld yn ein newyddlen diwethaf, bod adroddiad Canfod Gwerth Buddiant Cymdeithasol wedi ei gynhyrchu gan Dr Adam Richards ar gyfer prosiectau Teulu Ni a Ffrindia', sy'n dangos gwerth cyfan y prosiectau ac arbedion posib i gyrff statudol oherwydd ymyrraeth gynnar.

Mae mudiadau trydydd sector / sector gwirfoddol yn sicr yn creu gwerth cymdeithasol, ond yn aml y gwaethaf am fesur a dathlu hynny. Rydym angen gwella hyn fe allwn gryfhau ein hatebolrwydd i'n prif fudd-ddeiliaid, gwella perthynas gydag aelodau mewnol, helpu i greu rhagor o effaith bositif, a phwysleisio ein gwerth i arianwyr a chomisïynwyr. Mae newidiadau deddfwriaethol diweddar yng Nghymru, fel y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn creu cyfleoedd i'r trydydd sector, a gall gwerth cymdeithasol eich helpu i'ch gwneud yn fwy gweladwy.

Gallwn gynnig nifer o opsiynau hyblyg ar gyfer hyfforddi a gwerthuso, ac yn hapus i deilwra unrhyw becyn i ymateb i'ch gofynion. Cysylltwch i drafod sut gallwn eich helpu - Eleri@mantellgwynedd.com
01286 672 626.

Gweithdai Hyfforddiant

Gallwn gynnig sesiynau cyflwyniadol, neu weithdai mwy dwys i reolwyr, ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr. Rydym wedi cynnal nifer o sesiynau hyfforddiant gyda mudiadau amrywiol oedd yn fan cychwyn iddynt ystyried pwy yw ei budd-ddeiliaid a dechrau meddwl beth sy'n newid ym mywydau pobl neu fudiadau o ganlyniad i'w gwaith da.

Gwasanaethau Gwerthuso

Gallwn gefnogi eich ceisiadau ariannol drwy eich cynorthwyo i ystyried effaith gymdeithasol eich gwaith yn ystod y camau tendro. Gallwn hefyd weithio gyda chi i feddwl am y systemau a phrosesau i fesur eich effaith, a darparu gwerthusiad cyflawn o'r gwerth cymdeithasol sy'n cael ei greu drwy eich gweithgareddau.

Y Tîm

Dr Adam Richards

Ymgynghorydd Cyfrifon Cymdeithasol

Eleri Lloyd

Swyddog Datblygu Gwerth Cymdeithasol



COMIC RELIEF

Mae rhaglen grantiau 'Cryfder Craidd' Comic Relief ar gael i gefnogi costau rhedeg craidd a meithrin gallu mudiad. Mae grantiau gwerth hyd at £40,000 ar gael am gyfnod o dros ddwy flynedd.

Mae rhaid i fudiadau sy'n bwriadu cyflwyno cais ganolbwyntio'n ganolog (a hynny wedi'i nodi yn eu cyfansoddiad) ar ddarparu gwasanaethau yn un o'r pedwar maes canlynol:

- Buddsoddi mewn plant a phobl ifanc i fod yn barod at y dyfodol
- Grymuso menywod a merched i fod yn rhydd i fyw'r bywydau maent yn eu dewis
- Gwella iechyd a llesiant pobl agored i niwed ac o dan anfantais
- Meithrin cymunedau cryfach mewn ardaloedd o anfantais, amddifadedd a thlodi

Mae rhestr pellach o feini prawf er mwyn sicrhau eich bod yn gymwys i ymgeisio. Am fanylion pellach ewch i www.comicrelief.com/grants/initiatives/core-strength neu drwy ebostio:

grantsinfo@comicrelief.com

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **27 Gorffennaf 2016** (canol dydd).

CIST GWYNEDD



Mae Cist Gwynedd yn cynnig cymorth ariannol i grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn y sir ac mae'r gist ar agor ers fis Ebrill 2016.

Mae'r Gist yn gweinyddu'r Gronfa Datblygu Gwirfoddol a Chronfa'r Degwm.

Mae Cronfa Datblygu Gwirfoddol yn cynnig grantiau cyfalaf a referniw hyd at £10,000, i gefnogi gwirfoddolwyr i wella ansawdd bywyd trigolion a chymunedau yng Ngwynedd.

Mae Cronfa'r Degwm yn cynnig grantiau hyd at £3,000 i elusennau cofrestredig yn unig ac Eisteddfodau lleol yn y sir.

Am ragor o wybodaeth neu am becyn cais ewch i safle we'r Cyngor: www.gwynedd.llyw.uk/grantiau_cymunedol neu, cysylltwch gydag Uwch Swyddog Cist Gwynedd ar **01286 679153**, e-bost: cistgwynedd@gwynedd.llyw.uk

CIST GYMUNEDOL Grantiau hyd at £1,500

Pwy?

Clybiau Chwaraeon, Neuaddau Pentref, Grwpiau Ffitrwydd/Ymarfer Corff, Grwpiau Cymunedol

Beth?

Cyrsiau Hyfforddi, Costau cychwynnol i sefydlu gweithgaredd newydd/ychwanegol

Pryd?

Mae'r panel yn cwrdd 6 gwaith y flwyddyn i drafod ceisiadau

Cyllid ychwanegol ar gael i daclo anghydraddoldebau o ran cyfranogiad mewn chwaraeon gan gynnwys y canlynol: Anabledau (cynhwysol), Merched a Genethod, Plant a Phobl Ifanc sy'n profi tlodi.

Sut?

Ewch i wefan www.chwaraeon.cymru (Cyllid -Grantiau-Cist Gymunedol) a chlicio ar 'Ymgeisio ar-lein'.

Bydd angen cofrestru ar y systema dilyn y canllawiau er mwyn cwblhau a chyflwyno cais.

Am unrhyw gyngor neu ymholiadau ynglŷn â'r broses cysylltwch â ni ar **01766 771 000** / LAGO@gwynedd.llyw.uk

sportwales
chwaraeoncymru



ARIENNIR GAN Y LOTERI

www.mantellgwynedd.com

YSTAFELLOEDD / SWYDDFEYDD AR OSOD

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB
Yr Hen Swyddfa Heddlu, Y Lawnt, Dolgellau LL40 1SB
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Ceren Williams, Mantell Gwynedd: 01286 672626



Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru.

Fel rhan o raglen tymor yr haf gan Mantell Gwynedd bydd yr Uned Symudol yn ymweld â nifer o ddigwyddiadau yng Ngwynedd. Dydd Sadwrn 2il o Orffennaf 2016 bu yn Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru (Caernarfon). Mae digwyddiadau fel sioau amaethyddol yn rhoi cyfle i Mantell Gwynedd gysylltu gyda'r cyhoedd ac i rannu wybodaeth.



HYFFORDDIANT MANTELL GWYNEDD

Os hoffech drafod anghenion hyfforddiant eich mudiad cysylltwch â:
Delyth Vaughan ar **01286 672626** neu
delyth@mantellgwynedd.com

CYRSIAU I DDOD

Cymorth Cyntaf Brys

Hyfforddwr: Andy Thompson, Hyfforddiant Ynys Môn
20fed, Hydref, 2016
9.30 – 4.30 y.p
Lleoliad i'w gadarnhau

Diogelwch Bwyd Lefel 2

Hyfforddwr: Iolo Povey
2ail, Tachwedd, 2016
9.30 – 4.30
Swyddfa Mantell Gwynedd, Caernarfon

Cwrs Diogelu

Hyfforddwr: Y Bont
30ain Tachwedd, 2016
9.30 – 4.00
Swyddfa Mantell Gwynedd, Caernarfon

I archebu lle cysylltwch ag **Ellen ap Dafydd**
ellen@mantellgwynedd.com / **01286 672 626**



TAITH UNED SYMUDOL MANTELL GWYNEDD HAF 2016

24-08-2016 Sioe Amaethyddol Sir Meirionnydd,
Rhug, Corwen, LL21 0EH, ble bydd cyfle i chi sgwrsio a
Swyddog Mantell Gwynedd a chasglu ystod eang o wyboeth
defnyddiol sydd wedi ei gynhyrchu gan gwahanol fudiadau yng
Ngwynedd.

COFIWCH FOD UNED SYMUDOL MANTELL
GWYNEDD AR GAEL I'W LLOGI AM BRIS RHESYMOL
IAWN. COSTAU LLOGI'R UNED: **Aelodau o Mantell
Gwynedd: £130** y diwrnod (a phob diwrnod dilynol am
hanner y pris). **Defnyddwyr eraill: £150** y diwrnod (a phob
diwrnod dilynol am hanner y pris). Mae croeso i chi gysylltu â
ni i drafod telerau arbennig e.e. defnyddio'r cerbyd yn
rheolaidd am gyfnod penodol (gallwn ddod i drefniadau
rhesymol iawn). Cysylltwch drwy e-bostio:
yholiadau@mantellgwynedd.com
Ffonia: **01286 672 626** Neu trwy ein gwefan:
www.mantellgwynedd.com

HYFFORDDIANT WCVA



Ymwelwch a'r wefan i
gael y wybodaeth
hyfforddiant diweddaraf
www.wcva.org.uk

 [facebook.com/mantellg](https://www.facebook.com/mantellg)

 [@MantellGwynedd](https://twitter.com/MantellGwynedd)